
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# SUT I WNEUD YN FAWR O RITH-DDIWRNOD AGORED

CAERFYRDDIN 20.06.20
LLAMBED 20.06.20
ABERTAWE 27.06.20

## Gwnewch rywfaint o waith ymchwil ymlaen llaw...

- Edrychwch ar ein gwefan i gasglu gwybodaeth am y cyrsiau perthnasol sydd gennym i'w cynnig.
- Lleoli ac ymchwilio'r campws sy'n gysylltiedig â'ch cwrs neu faes pwnc dewisol a dod o hyd i rywfaint o wybodaeth am yr ardal leol.
- Gan ddefnyddio'r wefan, ceisiwch nodi enwau a manylion cyswllt pobl benodol yr hoffech siarad â nhw, megis Cyfarwyddwr Rhaglen y cwrs rydych am ei astudio.



## Trefnwch eich hun cyn y Rhith-ddiwrnod agored

- Gwnewch restr o gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn yn ystod eich diwrnod agored.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych bad ysgrifennu a phin yn barod!
- Gwnewch yn siŵr bod eich cysylltiad â'r rhyngrwyd yn ddigon sefydlog i allu gwneud yn fawr o'r amser sydd ar gael.
- Gwnewch yn siŵr eich bod mewn man cyfforddus



## Rhowch ddigon o amser i chi'ch hun

Gydol y diwrnod agored rhithwir, fe welwch fod gwahanol adrannau ar gael i ymweld â hwy felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o amser i allu ymweld â phob ardal.

- Gwybodaeth benodol am gyrsiau a chyfle i siarad â darlithwyr ac academyddion.
- Cyllid a ffioedd
- Llety Myfyrwyr
- Gwasanaethau Myfyrwyr
- Sesiynau blasu
- Siarad â myfyrwyr cyfredol
- Proses ymgeisio'r brifysgol.

## Holwch lawer o gwestiynau!

Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored, yn enwedig rhhith-ddiwrnod, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn yr holl gwestiynau ar eich rhestr ac unrhyw rai sy'n codi gydol y dydd.

Mae ein staff a'n myfyrwyr yno i'ch helpu a sicrhau eich bod yn gwneud yn fawr o'ch Rhith-ddiwrnod Agored.

Cofiwch: mae pob cwestiwn yn ddilys, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn!

## Mynnwch air â myfyrwyr presennol Y Drindod Dewi Sant!

Pwy gwell i sôn am fywyd yn y Brifysgol na myfyrwyr sy'n mynd drwy'r union brofiad hwnnw!

Mae ein tîm o Lysgenhadon Myfyrwyr wrth law i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am fywyd yn Y Drindod Dewi Sant a dweud wrthych chi am eu profiadau eu hunain.

Eisiau cael ychydig o wybodaeth uniongyrchol am gyrsiau penodol neu fywyd myfyrwyr yn eich dewis gampws? Mae ein myfyrwyr yn barod i ddweud y cyfan wrthych!

## Cymerwch ran mewn Sesiwn Flasu rithwir!

Os ydych chi'n ystyried astudio yn Y Drindod ond efallai heb benderfynu ar eich maes pwnc, beth am ddod draw i un o'n diwrnodau blasu rhithwir?

Mae amrywiaeth o ddiwrnodau blasu ar gael, sy'n cynnig cyfleoedd gwych i gael gweithdai, tiwtorialau a/neu ddarlithoedd mewn lleoliad prifysgol.

Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth a rhestr lawn o'r sesiynau blasu sydd ar gael.



**Ewch i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth am Ddiwrnodau Agored Rhithwir a Sesiynau Blasu yn www.uwtsd.ac.uk**